**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18fed o Hydref 2016**

**Presennol:** Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Einir Thomas

Darparwyd y gwasanaeth cyfieithu gan Hywel Hughes.

**2. Datganiad o ddiddordeb - dim**

**3. Cofnodion cyfarfod 20fed o Fedi -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Dyfed Williams.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion.**

1. Meinciau - Adroddodd Cyng. Dyfed Williams fod y fainc oedd wedi ei lleoli yn Yr Hen Ysgol wedi dirywio gormod i'w thrin. Gan mai anaml y defnyddiwyd y fainc sydd wrth y capel cytunwyd i'w symud i stad Yr Hen Ysgol ac os yn bosibl i osod y plac coffa oddi ar y fainc bresennol arni.

2. Cae chwarae - Roedd G. L. Jones Playgrounds Ltd. wedi cyflwyno eu hanfoneb ar gyfer cynnal yr arolwg o'r offer chwarae - cytunwyd i dalu hon.

3. Llwybrau - Cytunwyd y byddai'r clerc yn holi ynglŷn â chyflwr llwybr troed 8 gan nad oedd wedi cael eu torri ers tro.

4. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref - dim**

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn - fe nodwyd y canlynol**

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Medi 2016
2. Cynigion Cyllideb 2017/18 - Llythyr i hysbysu y bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus parthed cynigion Cyllideb 2017/18 rhwng Tachwedd 11 a Rhagfyr 16, 2016.
3. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - Rhaglen ar gyfer 20-10-16

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 18.10.2016 Cyfrif Cyfredol £6784.48, Cyfrif Cadw £3,920.64**

**<u>Taliadau i'w gwneud</u>**

Signature ………………………………………….Chairman

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Medi.) | £178.14 | HMRC | £44.54 |
| GMS Ground Maintenance (1308)(1120) | £542.40 | F. Rowlands | £180.00 |
| Hywel Hughes | £52.50 | G. L. Jones | £222.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

**8. Cyfrifon 2015/16 -** Nodwyd nad oedd y Ffurflen Derfynol wedi ei dychwelyd. er bod yr Archwilwyr Allanol wedi cadarnhau eu bwriad i gyhoeddi tystysgrif ddiamod.

**9 Dogfennau Statudol -** Cytunwyd y byddai'r clerc yn adolygu pob un o'r dogfennau statudol ac yn eu cyflwyno i'w cymeradwyo cyn gynted ag y bo modd.

**10. Sedd Wag -** Cafwyd cais am gyfethol i sedd wag ar y Cyngor Cymuned gan Mr William Victor Owen o' Llanfihangel y Nhowyn. Gyda Cyng. Beryl Salisbury yn cynnig a Cyng. Gordon Owen yn eilio cytunwyd yn unfrydol i gyfethol Mr Owen yn syth..

**11. Gohebiaeth Eraill - fe nodwyd y canlynol**.

1. Adroddiad Blynyddol Un Llais Cymru
2. "Stakeholder Reference Group Meeting" - 5 Medi 2016
3. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH Hydref 2016
4. Newyddion Trysorlys Cymru - Hwn oedd y rhifyn cyntaf o Newyddion Trysorlys Cymru. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am Trethi Datganoledig yng Nghymru, treth trafodiadau tir, Awdurdod Cyllid Cymru a threth gwarediadau tirlenwi.
5. Comisiynydd Heddlu a Throsedd - Cynhadledd Ymgysylltu â'r Trydydd Sector
6. Diweddariad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol - Nodwyd bod penderfyniad wedi'i wneud i gadw'r 22 awdurdod presennol fel yr haen ddemocrataidd o lywodraeth leol. Roedd y cynigion newydd yn gofyn am gydweithio ehangach a mwy pendant rhwng awdurdodau ac roedd bwriad i edrych ar opsiynau ar gyfer lefel uwch o gydweithio rhanbarthol gorfodol a systematig.
7. Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA – Chwefror 2017
8. Ymgynghoriad: Gwasanaethau tân ac achub fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru
9. RAF VALLEY - Noson Tân Gwyllt 6.45 Nos Iau 3 o Dachwedd 2016

**12. Unrhyw fater arall**

**13. Cyfarfod nesaf 15fed o Dachwedd 2016.**

Signature ……………………………………………Chairman